

Hannah Blythyn
Gweinidog yr Amgylchedd
Gweinidog yr Amgylchedd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-852
Ein cyf/Our ref LG/01046/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
government.committee.business@llyw.cymru

23 Tachwedd 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref ynghylch eich Deiseb P-05-852 - Cyflwyno Trwydded i Reoli Tir ar gyfer Saethu Adar Hela mewn Ymgais i Roi Diwedd ar Erid Adar Ysglyfaethus.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y Cynllun Archwilio Digwyddiadau Bywyd Gwyllt (WIIS). Mae'r Cynllun yn archwilio ac yn cynnig gwasanaethau dadansoddi ar gyfer bywyd gwyllt, anifeiliaid anwes a gwenyn mêl y mae amheuaeth eu bod yn cael eu gwenwyno gan bladdwyr. Mae ffigurau WIIS o'r bum mlynedd flaenorol yn dangos bod 2 achos y flwyddyn ar gyfartaledd wedi'u cadarnhau o gamddefnyddio pladdwyr yn fwriadol gan arwain at adar hela yn marw. Y canlyniadau ehangach a gofnodwyd gan y cyhoeddiad 'Birdcrime 2017' blynyddol gan RSPB oedd 3 achos ar wahân o erlyn yng Nghymru a oedd yn cynnwys saethu boncath a barcud coch gan gadarnhau bod hebog tramor wedi'i wenwyno gan bladdwr.

Mae'r cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr heddlu, y Gwasanaeth Tân, Rhwydwaith Gwybodaeth Asiantaeth y Llywodraeth a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhan sylfaenol o'r broses o ganfod, atal, archwilio a gorfodi mewn achosion o droseddau bywyd gwyllt a gwledig, ar lefel strategol genedlaethol ac ar lefel weithredol ranbarthol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â phedwar o Heddluoedd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff gorfodi eraill drwy Grŵp Troseddau Bywyd Gwyllt a Gwledig Cymru. Mae'r Grŵp yn nodi blaenoriaethau ranbarthol o ran troseddau yn erbyn bywyd gwyllt yn ogystal â sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli ar lefel Grwpiau Cyflawni Blaenoriaethau y DU gan gynnwys Grŵp Cyflawni'r Flaenoriaeth i Atal yr Erid ar Adar Ysglyfaethus. Mae atal yr erlid ar adar ysglyfaethus yn flaenoriaeth yng Nghymru yn ogystal â'r DU yn gyfan. Un o amcanion cyffredin y Grwpiau yng Nghymru ac yn y DU yw 'diogelu adar ysglyfaethus rhag gael eu herlid drwy ddatblygu a rhannu methodoleg arfer gorau i ddiogelu adar, eu hwyau a'u nythod'.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn 2017 rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i'r 'Adolygiad i Atal ac Archwilio i Droseddau Bywyd Gwyllt yng Nghymru'. Cynhaliwyd yr Adolygiad gan yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol ac roedd yn cynnwys 21 o argymhellion sy'n cael eu hystyried gan Grŵp Troseddau Bywyd Gwyllt a Gwledig Cymru ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at lwyddiant rhoi swyddogion yr heddlu ar secondiad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â sefydlu timau penodol ar gyfer troseddau gwledig o fewn heddluoedd Cymru. Byddaf yn parhau i gefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hymrwymiad i gydweithio gyda Heddluoedd Cymru i annog pobl i gydymffurfio gyda, a gorfodi deddfwriaeth bywyd gwyllt ac amgylcheddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys parhau i ariannu swyddogion yr heddlu ar secondiad sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r gwaith hwn. Rwyf yn falch o ddweud bod y model 'tim troseddu gwledig' wedi'i ymestyn, ac mae bellach yn cynnwys Heddluoedd Gogledd Cymru a Heddlu Dyfed Powys. Mae Heddluoedd De Cymru a Gwent hefyd yn ystyried sefydlu timau tebyg.

Roedd yr Adolygiad yn tynnu sylw at arferion gorau ac yn edrych ar fylchau mewn gwybodaeth a phroblemau wrth fynd ymlaen i erlyn. Ni chafodd trwyddedu saethu adar hela / ceidwaid adar hela ei nodi fel problem ac felly ni chafod ei restru yn yr argymhellion. Wrth gynnal ymchwiliadau gyda'r heddlu, nid yw fy swyddogion wedi gorfod wynebu unrhyw broblemau o ran adnabod perchnogion tir lleol a'r rhai hynny sydd â buddiannau mewn adar hela, ac felly nid ydynt yn gweld bod unrhyw fantais i gyflwyno trefn drwyddedu a fyddai'n cymryd amser ychwanegol ac yn gostus i'w rhoi ar waith, heb unrhyw fantais amlwg o gymharu â'r drefn bresennol o ddelio gydag achosion erlid adar ysglyfaethus.

Yn gywir



Hannah Blythyn AC
Gweinidog yr Amgylchedd
Minister for Environment